

# Castell Caerdydd

## Gweithdy “Cwrdd â'r Marchog”

### Lleoliad

Cynhelir eich gweithdy naill ai yn Ystafell y Stiward (Ystafell 2) yn y Ganolfan Addysg, neu, yn dibynnu ar archebion eraill, yn yr Is-grofft ganoloesol.

### Disgrifiad

Mae'r gweithdy hwn yn rhoi cyfle i ddysgu am gestyll, marchogion, arfwisgoedd ac arfau mewn sesiwn ryngweithiol gyda "marchog", a fydd yn addysgu'r disgyblion am amrywiaeth o arfwisgoedd ac arfau canoloesol a'u defnydd mewn brwydr.

Bydd y sesiwn yn gorffen gyda chyfle i bob disgybl afael mewn cleddyf go iawn, gwisgo gwisg milwr a defnyddio detholiad o helmedau (plastig) a phypedau i ysbrydoli gwaith pellach ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Cynhelir eich gweithdy gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes sydd wedi pasio prawf y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DRB).

### Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith o'r Castell yn mynd â'r plant o amgylch rhai o'r ystafelloedd mwyaf trawiadol a lliwgar a ddyluniwyd gan y pensaer, William Burges. Mae ei gynlluniau yn dod o'r cyfnod Fictoraidd ond maent yn adlewyrchu gweledigaeth Burges o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

### Hyd

Bydd y gweithdy yn para 60 munud. Bydd y daith dywys yn para tua 50 munud er argymhellir taith fyrrach o 30 munud i blant iau a all gael trafferth dringo'r grisiau troellog. Neilltuir amser ar gyfer cinio ac i fanteisio ar yr agweddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr ymweliad (gweler isod)

### Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am y castell mwnt a beili
- ◆ Siarad am y gwahanol fathau o bobl oedd yn byw mewn castell
- ◆ Dysgu am y prif gwahanol arddulliau o arfwisg a fyddai wedi cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod canoloesol
- ◆ Dysgu am rai o'r dulliau ymosod ar faes y gad a pham fod gwahanol fathau o arfau yn dda at ddibenion penodol

### Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ **Cyfnod Sylfaenol (Cymru)**
  - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
  - Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol
- ◆ **Hanes - Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)**
  - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw
- ◆ **Hanes - Cyfnod Allweddol 2 (Cymru)**
  - Bywyd pob dydd pobl yn ystod Oes y Tywysogion
- ◆ **Hanes – Cyfnod Allweddol 2 (Lloegr)**
  - Astudiaeth o agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth gronolegol y disgyblion y tu hwnt i 1066

## **Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad**

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.